# Stori Mae angen injan dân ar Dylan - Rhan 2

Mae Dylan wrth ei fodd yn chwarae gemau gyda lluniau o ddarnau arian a phapurau. Mae wedi cael llawer o hwyl, ac wedi dysgu popeth am y gwahanol fathau o arian rydym ni'n eu defnyddio. Nawr, mae eisiau dysgu mwy.

"Mae angen i mi gael arian, er mwyn imi allu prynu'r injan dân hyfryd yna," mae'n dweud wrtho'i hun. "Mae gen i ddynion tân bach i chwarae gyda nhw ac mae angen yr injan dân i'w rhoi nhw ynddi."

Mae Dylan yn mynd yn ôl i'r siop i weld ei ffrind, Rhiannon. Mae Rhiannon yn cadw siop ac yn gwybod popeth am arian. Mae Rhiannon yn gwenu wrth weld Dylan yn cyrraedd y siop.

"Helo, Dylan. Sut ydych chi?" gofynna Rhiannon.

Mae Rhiannon yn glên iawn ac mae hi bob amser yn rhoi croeso i Dylan.

"Rwyf i wedi dysgu popeth am y gwahanol ddarnau arian a phapurau rydym ni'n eu defnyddio, ond nid wyf i'n gwybod o hyd sut i gael yr injan dân. Mae wir ei hangen arna i" mae'n dweud.

Mae Rhiannon yn gwenu ar Dylan.

"Rwy'n credu ei bod hi'n bryd i mi eich helpu i ddysgu'r gwahaniaeth rhwng angen ac eisiau," meddai Rhiannon. "Mae angen pethau arnom ni sy'n ein cadw ni'n iach ac yn ddiogel. Mae angen dillad arnom ni i gadw'n gynnes. Mae angen bwyd a dŵr arnom ni i fyw. Mae llawer o bethau eraill rydym ni eu heisiau. Rydym ni eisiau pethau sy'n hwyl neu sy'n brydferth. Rydym ni eisiau pethau sy'n gwneud ein gwaith yn haws. Mae llawer o resymau pam rydym ni eisiau pethau." (1.)

"Ydych chi'n meddwl bod angen yr injan dân arnoch chi, neu ydych chi eisiau'r injan dân?" gofynna Rhiannon.

Mae Dylan yn meddwl am eiliad. Byddai'r injan dân yn gwneud i Dylan deimlo'n hapus. Mae'n bwysig teimlo'n hapus.

"Rwyf i'n credu bod ei hangen hi arna i," mae Dylan yn ateb. "Byddai'n fy ngwneud i'n hapus ac mae'n bwysig bod yn hapus."

"Mae yn bwysig teimlo'n hapus, Dylan," cytuna Rhiannon," ond rydych chi wedi bod yn hapus o'r blaen?"

Mae golwg wedi drysu ar Dylan.

"Os ydych chi wedi bod yn hapus heb yr injan dân, nid oes ei hangen hi arnoch chi i fod yn hapus," esbonia Rhiannon. "Weithiau, gallwn ni ddewis bod yn hapus gyda'r hyn sydd gennym ni yn barod, neu fe allwn ni wneud ein hunain yn anhapus yn meddwl am yr holl bethau nad oes gennym ni." (2)

Mae Rhiannon yn mynd yn ei blaen

"Pan nad ydych chi'n siŵr ydych chi angen rhywbeth neu ei eisiau, gall helpu i ofyn i'ch hun beth fyddai'n digwydd pe na bai gennych chi'r peth yna."

"Pe na bai gen i'r injan dân, byddwn i'n siomedig. Byddwn i'n dal yn ddiogel, a byddwn i'n dal yn iach," mae Dylan yn ymateb. "Rwy'n credu fy mod i ei heisiau, ond nid oes ei hangen."

"Dyna ni," cytuna Rhiannon. "Mae'n iawn eisiau pethau, ond mae'n rhaid i ni wario ein harian ar y pethau sydd eu hangen arnom ni yn gyntaf."

"Ydy hynny'n golygu na ddylwn i gael yr injan dân?" mae Dylan yn gofyn.

“Pan fyddwn ni’n penderfynu a ddylem ni brynu rhywbeth rydym ni ei eisiau, dylem ni ofyn dau gwestiwn i’n hunain. Oes gen i ddigon o arian i’w brynu ac a yw’n werth yr arian?” mae Rhiannon yn ymateb.

“Does gen i ddim arian,” meddai Dylan dan wgu, “ac nid wyf i’n gwybod beth yw gwerth.”

“Peidiwch â phoeni,” meddai Rhiannon gan gysuro Dylan, “Gallaf i eich helpu.”

“Mae gwerth yn debyg iawn i bris. Mae gwerth eitem yn dweud wrthym ni beth fyddai yn gyfnewid teg amdani. Pan wnaethom ni gyfarfod, gofynnais i chi roi gwên imi yn gyfnewid am lolipop. Roedd y lolipop yn werth gwên. Dyna oedd ei werth i mi. Pe bawn i yn cael gwên hyfryd i lonni fy niwrnod, byddwn i’n cyfnewid hynny am lolipop. Mae angen i chi benderfynu beth yw gwerth yr injan dân i chi. Mae pris o £10 ar yr injan dân. Byddai angen imi gael £10 yn gyfnewid amdani oherwydd dyna yw ei gwerth i mi. Rhaid i chi ofyn i’ch hun ydy hi’n werth £10 i chi.“

Mae Dylan yn penderfynu treulio amser yn meddwl am hyn.

Mae’n deall y gwahaniaeth rhwng angen ac eisiau ond mae pris a gwerth ychydig yn fwy anodd. Mae Dylan yn diolch i Rhiannon am ei chymorth. Mae hi’n ffrind mor dda.

“Mi fydda i nôl yn fuan,” meddai Dylan, “diolch Rhiannon.”

“Croeso mawr. Hwyl, Dylan,” mae Rhiannon yn ymateb, ac yn codi ei llaw i ffarwelio â Dylan. (3)

## Cwestiynau grŵp:

1. Pa resymau gallwch chi feddwl amdanyn nhw ein bod ni eisiau rhywbeth?
   Meddyliwch am bethau rydych chi eu heisiau a pham rydych chi eu heisiau nhw.

   Mae gwahanol bobl eisiau gwahanol bethau. Pa bethau allai eich rhieni fod eisiau, nad ydych chi? Beth am blant ledled y byd? Ydyn nhw eisiau pethau gwahanol?
2. Oes angen i ni brynu pethau i fod yn hapus? Beth sy’n ein gwneud ni yn hapus?
3. Atgyfnerthwch y defnydd priodol o’r eirfa.
   Gan ddefnyddio’r lluniau isod, daliwch nhw i fyny i’w dangos i’r dosbarth a gofynnwch y cwestiynau canlynol, gan hwyluso’r drefn ganlynol o ymateb drwy ysgrifennu ar y bwrdd gwyn.

- Faint yw ei gost? Ei gost yw_____.
- Beth yw’r pris? Pris y _______ yw _______.
- Faint yw ei werth? Ei werth yw ________.
  (Ceisiwch annog y disgyblion i feddwl a ydyn nhw’n cytuno bod gwerth rhywbeth yr un fath â’i gost. Gallai ei werth amrywio o berson i berson.)
- Faint yw ei werth? Ei werth yw ________ i mi.